# Newidiadau i'n Hegwyddorion ar gyfer Cyfreithwyr Cymwysedig: asesiad effaith cychwynnol

Mawrth 2020

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3

Crynodeb o effeithiau posibl ........ 4

Cael gwared â'r gofyniad i gyfreithwyr cymwysedig sydd yn ceisio esemptiad o'r SQE ddod o awdurdodaeth yr ydym yn ei chydnabod ........ 4

Asesu gwybodaeth iaith Gymraeg cyfreithwyr cymwysedig ........ 5

Ymestyn y gofyniad iaith i gyfreithwyr cymwysedig sydd wedi eu hesemptio o rannau o SQE2 ........ 5

Dadansoddiad o'n cynigion mewn perthynas â'n hamcanion Rheoleiddio ac Egwyddorion Gwell Rheoleiddio ........ 8

Casgliad ........ 14

# Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn archwilio effaith bosibl ein cynigion i ddiwygio ein egwyddorion ar gyfer cyfieithwyr cymwysedig (yr egwyddorion)[1] sydd yn ceisio cael eu derbyn yng Nghymru a Lloegr pan gyflwynir Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr (SQE). Dylid ei darllen ynghyd â'n hymgynghoriad.

2. Rydym yn cynnig:

    a) Cael gwared â'r gofyniad i gyfreithwyr cymwysedig sydd yn ceisio esemptiad o'r SQE ddod o awdurdodaeth yr ydym yn ei chydnabod.

    b) Egluro y gall cyfreithwyr cymwysedig ddangos y gofyniad iaith mewn Cymraeg neu Saesneg yn unol â'n Rheoliadau Awdurdodi Unigolion.

    c) Ymestyn y gofyniad iaith i gyfreithwyr cymwysedig sydd wedi eu hesemptio o rannau o SQE2 (yn ogystal ag SEQ2 yn ei gyfanrwydd, fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol) pan fo gennym amheuon difrifol a phendant am eu gwybodaeth ieithyddol.

    d) Tynnu'r gair "prawf" o'r adran gofyniad iaith.

3. O ystyried bod yr SQE yn ymagwedd newydd tuag at gymhwyso, nid ydym yn dal data ar esemptiadau ar gyfer cyfreithwyr cymwysedig all ein helpu i ddeall yn iawn beth fydd effaith debygol ein cynigion. Byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad yma i archwilio mwy ar ein cynigion gyda rhanddeiliaid.

4. Rydym hefyd wedi dadansoddi ein cynigion yn erbyn ein dyletswyddau o dan Deddf Cydraddoldeb 2010, er mwyn hyrwyddo Amcanion Rheoleiddiol ac Egwyddorion Gwell Rheoleiddio. Rydym wedi canfod risg posibl, ac rydym wedi egluro sut y byddwn yn rheoli hynny.

5. Byddwn yn cyhoeddi asesiad effaith terfynol ynghyd â'n dogfen ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod haf 2020.

[1] Mae ein hegwyddorion yn amlinellu sut y byddwn yn cydnabod gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau y bydd cyfreithwyr cymwysedig wedi eu caffael efallai drwy gymwysterau proffesiynol a phrofiad proffesiynol wrth benderfynu eu hesemptio o bob rhan o SQE 2.

## Crynodeb o Effeithiau Posibl

6. Mae ein dadansoddiad cychwynnol wedi amlygu'r effeithiau canlynol:

   a) Cael gwared â rhwystr diangen i gyfreithwyr cymwysedig pan maent yn gwneud cais am esemptiad llawn neu rannol o SQE2 drwy gydnabod cymhwyster proffesiynol a/neu brofiad yn hytrach nag awdurdodaeth.

   b) Galluogi i gyfreithwyr cymwysedig Cymraeg ddangos eu gwybodaeth ieithyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

   c) Mwy o warchodaeth gyhoeddus drwy  sicrhau bod cyfreithwyr cymwysedig sydd wedi eu hesemptio yn rhannol o SQE2 wedi bodloni'r safon gwybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg yr ydym ni a'r cyhoedd yn ei disgwyl.

   d) Mae unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol posibl ar sail hil neu genedligrwydd yn achos ymgeiswyr sydd wedi eu geni a/neu eu magu mewn gwlad ble na siaredir Saesneg yn cael ei liniaru drwy:

      - Ddim ond cymhwyso'r gofyniad prawf iaith Gymraeg neu Saesneg i'r cyfreithwyr cymwysedig hynny y mae gennym amheuon difrifol a phendant am eu gwybodaeth ieithyddol.

      - Galluogi cyfreithwyr cymwysedig, y mae'r gofyniad yn gymwys iddynt, ddangos gwybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg drwy amrywiaeth eang a hyblyg o ddulliau.

   e) Efallai bod yna rai cyfreithwyr cymwysedig fydd angen sefyll prawf iaith er mwyn dangos eu gwybodaeth ieithyddol. Rydym wedi ceisio lleihau hynny cymaint â phosibl drwy gynnig dull hyblyg o ddangos gwybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg. Rydym yn credu bod unrhyw gost ychwanegol y gallai cyfreithiwr cymwysedig ei ysgwyddo wrth ymgymryd ag asesiad iaith yn gymesur a chyfiawn er mwyn i ni allu sicrhau gwybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg.

### Cael gwared â'r gofyniad i gyfreithwyr cymwysedig sydd yn ceisio esemptiad o'r SQE ddod o awdurdodaeth yr ydym yn ei chydnabod

7. Rydym yn cynnig cael gwared â'r gofyniad i awdurdodaeth dramor gael ei chydnabod gennym pan fo cyfreithiwr cymwysedig yn ceisio esemptiad o'r SQE. Byddwn yn tybio bod gan gyfreithiwr cymwysedig y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol sydd yn cyfateb i'r SQE drwy ddadansoddi a chydnabod y cymhwyster maent wedi ei ennill ynghyd â'r profiad maent wedi ei gael. Mae hynny yn cael ei asesu yn erbyn cynnwys a safon yr SQE, neu'r rhan berthnasol ohono.

8. Mae ein cynnig i ddibynnu ar asesu cymwysterau proffesiynol ymgeiswyr ym mha bynnag awdurdodaeth y'u henillwyd yn golygu nad oes angen i ni asesu nodweddion penodol yr awdurdodaeth ble enillwyd y cymhwyster neu ble mae'r cyfreithiwr wedi bod yn gweithio. Os byddwn yn bwrw ymlaen gyda'n cynnig, gallai gynyddu nifer y cyfreithwyr cymwys allai wneud cais i gael eu derbyn.

9. Rydym yn cydnabod bod yna risg os na fydd cyfreithwyr cymwysedig yn deall ein diwygiadau os cânt eu cymeradwyo. Byddwn yn cyfathrebu ein newidiadau i gyfreithwyr cymwysedig ac awdurdodaethau.

10. Ar hyn o bryd nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn effeithio yn niweidiol nac yn anghymesur ar gyfreithwyr cymwysedig o unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn datblygu ein syniadau.

## Asesu gwybodaeth iaith Gymraeg cyfreithwyr cymwysedig

11. Rydym yn cynnig diwygio'r egwyddorion er mwyn ei gwneud yn glir y gall cyfreithwyr cymwysedig ddangos eu gwybodaeth ieithyddol wrth wneud cais am eu Tystysgrif Ymarfer yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â'n Rheoliadau Awdurdodi Unigolion.

12. Mae'r egwyddorion fel y'u drafftiwyd ar hyn o bryd yn gwahardd cyfreithiwr cymwysedig Cymraeg rhag dangos ei wybodaeth ieithyddol i ni a rhag dyfarnu hawliau ymarfer iddo. Gallai hynny atal cyfreithiwr cymwysedig Cymraeg rhag darparu gwasanaethau cyfreithiol i'r cyhoedd ac nid yw hynny yn gyson â'n Rheoliadau.

13. Dyluniwyd ein newidiad arfaethedig er mwyn mynd i'r afael â'r anfantais bosibl hon. Bydd yn caniatáu i gyfreithwyr cymwysedig Cymraeg sydd yn ceisio esemptiad rhannol o SQE2 ddangos eu gallu ieithyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

14. Nid ydym wedi canfod unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'n cynnig ar hyn o bryd. Ac nid ydym ychwaith wedi canfod unrhyw effeithiau ar gyfreithwyr cymwysedig o unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn datblygu ein syniadau.

## Ymestyn y gofyniad iaith i gyfreithwyr cymwysedig sydd wedi eu hesemptio o rannau o SQE2

15. Rydym yn cynnig diwygio ein hegwyddorion er mwyn ymestyn y gofyniad iaith i'r cyfreithwyr cymwysedig hynny allai gael eu hesemptio yn rhannol neu'n llawn o SQE2 er mwyn diogelu ein rheoliadau i'r dyfodol a rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen arnom er mwyn ymdrin â phob dyluniad asesiad posibl.

16. Rhan allweddol o ddiogelu defnyddwyr yw y gallwn ni a'r cyhoedd fod yn hyderus bod cyfreithwyr sydd yn ymarfer yng Nghymru a Lloegr yn gymwys mewn Cymraeg neu Saesneg. Bydd gennym amheuon difrifol a phendant am wybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg unrhyw ymgeisydd ar gyfer tystysgrif ymarfer gyntaf os na fyddant wedi ymgymryd ag unrhyw ran o'r SQE neu os ydynt wedi ymgymryd â rhannau o'r SQE ac wrth wneud hynny nid ydynt wedi dangos eu gwybodaeth ym mhob un o bedair elfen gwybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg.

17. Rydym yn cydnabod y gallai ein cynigion arwain at wahaniaethu anuniongyrchol ar sail hil neu genedligrwydd yn achos ymgeiswyr sydd wedi eu geni a/neu eu magu mewn gwlad ble na siaredir Cymraeg neu Saesneg.

18. Rydym wedi cymryd camau priodol a chymesur er mwyn lliniaru'r risg yma drwy:

    a) Gymhwyso'r gofynion dim ond pan fo gennym amheuon difrifol a phendant am wybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg yr ymgeisydd.

    b) Targedu'r gofynion at yr elfennau hynny o wybodaeth o'r Gymraeg neu Saesneg nad ydynt wedi gallu eu dangos drwy ymgymryd ag elfennau perthnasol o'r SQE2.

    c) Datblygu canllawiau hyblyg (atodiad 1) y gall ymgeisydd ddangos gwybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg yn eu herbyn os bydd angen.

19. Mae ein cynnig yn ymateb rhesymol i'r risg yma. Mae'n rheoliad angenrheidiol a chymesur oherwydd ei fod yn ein galluogi ni i ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau bod cyfreithwyr cymwysedig sydd wedi eu hesemptio yn rhannol neu yn llawn o SQE2 yn gymwys yn yr iaith Gymraeg neu'r Saesneg.

20. Rydym yn gwybod bod gan nifer o sefydliadau sydd yn profi medrusrwydd ieithyddol ddarpariaethau ar gyfer yr unigolion hynny sydd â gofynion arbennig. Er enghraifft, mae'r System Brofi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS) ar gael yn eang ac mae'n cynnig addasiadau rhesymol, er enghraifft, i'r ymgeiswyr hynny sydd angen papurau Braille, darllen gwefusau a thestun mawr.

21. Nid ydym yn ystyried bod ein cynnig yn cyflwyno rhwystr sylweddol neu anghymesur rhag derbyn cyfreithwyr cymwysedig allai fod angen ysgwyddo cost. Ein nod yw sicrhau bod pob cyfreithiwr cymwysedig yn bodloni'r safon gwybodaeth ieithyddol sydd yn angenrheidiol er mwyn iddynt allu darparu gwasanaethau cyfreithiol yn gymwys yng Nghymru a Lloegr. Am y rheswm hwnnw, rydym yn credu y gellir cyfiawnhau ein cynnig ac unrhyw gostau a ysgwyddir gan rai cyfreithwyr cymwysedig.

22. Byddwn yn rheolaidd yn adolygu ein gofyniad o ran gwybodaeth ieithyddol fel rhan o werthuso'r SQE yn gyffredinol. Bydd hynny yn ein helpu i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau anfwriadol i gyfreithwyr cymwysedig na allant ddangos gwybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg y tu hwnt i'n canllawiau. Byddwn hefyd yn asesu sut y cymhwysir y gofyniad yma.

23. Byddwn yn darparu canllawiau i gyfreithwyr cymwysedig er mwyn amlinellu sut y gellir tystiolaethu am wybodaeth ieithyddol. Bydd ymgeiswyr â nam ar y golwg yn gallu trafod canllawiau gyda'n Canolfan Gyswllt dros y ffôn.

24. Ac nid ydym wedi canfod unrhyw effeithiau ar gyfreithwyr cymwysedig ag unrhyw nodweddion gwarchodedig. Yn ystod yr ymgynghoriad byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn archwilio'n fanylach a yw ein canllawiau ar gyfer dangos gwybodaeth ieithyddol yn ddigon eang ac a oes yna unrhyw beth arall y gallwn ei wneud er mwyn lliniaru'r risg y bydd cost ychwanegol yn rhwystr i'r cyfreithwyr cymwysedig hynny na allant fodloni ein canllawiau ieithyddol.

25. Os byddwn yn mabwysiadu'r ymagwedd yma, rydym yn cynnig cael gwared â'r gair "prawf" o adran gofyniad iaith ein hegwyddorion. Rydym yn ystyried bod hynny yn ddiangen oherwydd nad yw "prawf" yn adlewyrchu'r hyblygrwydd o ran sut y gall cyfreithiwr cymwysedig ddangos ei wybodaeth ieithyddol os bydd angen.

# Dadansoddiad o’n cynigion mewn perthynas â’n hamcanion Rheoleiddio ac Egwyddorion Gwell Rheoleiddio

26. Yn yr adran yma rydym yn ystyried effaith ein cynigion ar ein dyletswyddau o dan Deddf Cydraddoldeb 2010, er mwyn hyrwyddo amcanion rheoleiddio Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol ac Egwyddorion Gwell Rheoleiddio.

**Effaith ein cynigion ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

27. Rydym yn gorff cyhoeddus ac felly rydym yn ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i ystyried sut y bydd ein gweithgaredd yn effeithio ar wahanol bobl, fel bod ein polisïau a’n gwasanaethau yn briodol ac yn hygyrch i bawb.

28. Rydym eisiau bod yn hyblyg o ran sut y gall cyfreithiwr cymwys fynd ati i gael ei dderbyn ac rydym eisiau cynnal ein hymrwymiad i sicrhau bod gan yr holl gyfreithwyr y safon ofynnol o wybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg.

29. Ar hyn o bryd, effaith gyfyngedig sydd gan ein cynigion ar y grwpiau â’r nodweddion mwyaf gwarchodedig. Rydym wedi canfod gwahaniaethu anuniongyrchol posibl ar sail hil neu genedligrwydd, fel y nodir hynny ym mharagraff 17, ac rydym wedi egluro pam fod yna reswm y gellir ei gyfiawnhau yn wrthrychol am hynny er lles y cyhoedd. Rydym wedi amlinellu sut y byddwn yn lliniaru ac yn lleihau’r risg cymaint â phosibl. Byddwn yn defnyddio’r ymarferiad ymgynghori a’r ymgynghori parhaus â rhanddeiliaid i ganfod ac archwilio mwy ar effeithiau.

**Sut mae ein cynigion yn berthnasol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

| **Nodweddion gwarchodedig** | **Effaith** |
|---|---|
| **Oed** | Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd sydd yn awgrymu y byddai ein newidiadau arfaethedig i’n hegwyddorion yn arwain at effaith wahaniaethol ar sail oedran cyfreithiwr cymwysedig. |
| **Anabledd** | Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd sydd yn awgrymu y byddai ein newidiadau arfaethedig i’n hegwyddorion yn arwain at effaith wahaniaethol oherwydd bod gan y cyfreithiwr anabledd. |

| | |
|---|---|
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd sydd yn awgrymu y byddai ein newidiadau arfaethedig i'n hegwyddorion yn arwain at effaith wahaniaethol ar gyfreithiwr cymwysedig yn y categori yma. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd sydd yn awgrymu y byddai ein newidiadau arfaethedig i'n hegwyddorion yn arwain at effaith wahaniaethol ar gyfreithwyr cymwysedig sydd yn feichiog neu sydd ar absenoldeb mamolaeth. |
| **Hil** | Rydym yn cydnabod y gallai ein cynigion arwain at wahaniaethu anuniongyrchol ar sail hil neu genedligrwydd yn achos ymgeiswyr sydd wedi eu geni a/neu eu magu mewn gwlad ble na siaredir Cymraeg neu Saesneg. Rydym wedi amlinellu'r mesurau i liniaru'r effaith ym mharagraff 17. Mae ein cynigion yn ymateb cymesur a chyfiawn i'r mater ac mae hynny er lles y cyhoedd.<br><br>Gallai ein cynnig i gael gwared â'r gofyniad i gydnabod awdurdodaeth ble mae cyfreithiwr cymwysedig yn dal cymhwyster proffesiynol gynyddu nifer y cyfreithwyr cymwysedig allai wneud cais i gael eu derbyn o nifer ehangach o awdurdodaethau. Mae hynny yn effaith gadarnhaol. |
| **Crefydd neu gred** | Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd sydd yn awgrymu y byddai ein newidiadau arfaethedig i'n hegwyddorion yn arwain at effaith wahaniaethol ar sail crefydd neu gred cyfreithiwr cymwysedig. |
| **Rhyw** | Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd sydd yn awgrymu y byddai ein newidiadau arfaethedig i'n hegwyddorion yn arwain at effaith wahaniaethol ar sail rhyw cyfreithiwr cymwysedig. |

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd sydd yn awgrymu y byddai ein newidiadau arfaethedig i'n hegwyddorion yn arwain at effaith wahaniaethol oherwydd cyfeiriadedd rhywiol yr ymgeisydd. |

**Sut mae ein cynigion yn berthnasol i amcanion rheoleiddio LSA**

| Amcan reoleiddio | Effaith |
|---|---|
| Gwarchod a hyrwyddo lles y cyhoedd | Mae ein cynnig i gymhwyso'r prawf iaith Gymraeg neu Saesneg i gyfreithwyr cymwysedig sydd wedi eu hesemptio yn rhannol o SQE2 yn diogelu'r cyhoedd drwy sicrhau eu bod yn bodloni'r safon gwybodaeth ieithyddol sydd ei angen er mwyn darparu gwasanaethau cyfreithiol cymwys yng Nghymru a Lloegr. Mae hynny yn helpu i gynyddu hyder yn y system gyfreithiol. |
| Cefnogi egwyddor gyfansoddiadol rheol y gyfraith | Mae ein cynnig yn cefnogi'r amcan yma drwy sicrhau bod cyfreithwyr sydd wedi eu hesemptio yn rhannol o SQE2 yn bodloni safon gwybodaeth ieithyddol Cymraeg neu Saesneg er mwyn cynnal rheol y gyfraith. |
| Gwella mynediad at gyfiawnder | Mae ein cynnig i alluogi i gyfreithwyr cymwysedig Cymraeg allu dangos eu cymhwysedd ieithyddol drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd i'r afael â'r anfanteision posibl maent yn eu wynebu pe na baent yn gallu gwneud hynny.<br><br>Gallai ein cynnig i gydnabod cymwysterau proffesiynol yn hytrach nag awdurdodaeth cyfreithiwr cymwys annog cyfreithwyr cymwysedig o awdurdodaethau nad ydym yn eu cydnabod ar hyn o bryd i geisio cael eu derbyn.<br><br>Mae'r ddau gynnig yn cael gwared â rhwystrau diangen rhag cael mynediad, nad ydynt yn cynnig unrhyw wir warchodaeth i'r cyhoedd. O ganlyniad i hynny, gallai'r cyhoedd gael gwell mynediad at gymorth cyfreithiol. |

| | |
|---|---|
| Gwarchod a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr | Mae ein cynnig i gymhwyso'r gofyniad iaith Gymraeg neu Saesneg i gyfreithwyr cymwys sydd wedi eu hesemptio yn rhannol neu'n gyfan gwbl o SQE2 yn golygu ein bod yn sicrhau eu bod yn bodloni'r safon gwybodaeth iaith Gymraeg neu Saesneg sydd ei hangen er mwyn darparu gwasanaethau cyfreithiol cymwys. |
| Hyrwyddo cystadleuaeth o ran darparu gwasanaethau | Gallai ein cynnig i gydnabod cymwysterau proffesiynol cyfreithwyr cymwysedig, yn hytrach na'u hawdurdodaeth, helpu i gynyddu cystadleuaeth a darpariaeth gwasanaethau cyfreithiol drwy alluogi ystod ehangach o gyfreithwyr cymwysedig i ddod i'r farchnad. |
| Annog proffesiwn cyfreithiol annibynnol, cryf, amrywiol ac effeithiol | Mae ein cynigion yn cyfrannu at broffesiwn cryf ac amrywiol. Maent yn sicrhau bod gan bob cyfreithiwr y lefel o wybodaeth sydd yn angenrheidiol. Hefyd, maent yn lleihau'r rhwystrau diangen rhag cael mynediad o ystod eang o awdurdodaethau: gallai canolbwyntio ar gymwysterau proffesiynol gynyddu nifer y cyfreithwyr cymwysedig sydd yn ceisio cael eu derbyn. |
| Cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o hawliau a dyletswyddau cyfreithiol dinasyddion | Mae sicrhau bod gan gyfreithwyr cymwysedig y sgiliau iaith angenrheidiol yn helpu i hyrwyddo'r amcan yma. |
| Hyrwyddo a chynnal cydymffurfiaeth (gan unigolion awdurdodedig) â'r egwyddorion proffesiynol | Mae ein cynnig i gymhwyso'r gofyniad prawf iaith Cymraeg neu Saesneg i gyfreithwyr cymwysedig sydd yn ceisio esemptiad rhannol o SQE2 a'r rhai y mae yna amheuon difrifol a phendant ynghylch eu gwybodaeth ieithyddol yn gyson â'r amcan yma oherwydd:<br>• Gall cyfreithwyr cymwysedig gynnal safonau gwaith priodol.<br>• Gall cyfreithwyr cymwysedig weithredu er lles eu cleientiaid. |

### Sut mae ein cynigion yn berthnasol i Egwyddorion Gwell Rheoleiddio

| Egwyddor Gwell Rheoleiddio | Effaith |
|---|---|
| Cymesur | Mae ein cynigion yn gymesur i'r risg yr ydym wedi ei adnabod. Mae'r gofyniad iaith ond yn |

| | |
|---|---|
| | gymwys i'r rhai y mae gennym amheuon difrifol a phendant amdanynt.<br><br>Mae  cael gwared â'r gofyniad i awdurdodaeth dramor gael ei chydnabod gennym pan fo cyfreithiwr cymwysedig yn ceisio esemptiad o'r SQE yn cael gwared â rheoliadau diangen nad ydynt yn cynnig unrhyw wir ddiogelwch i'r cyhoedd. |
| Atebol | Os byddwn yn rhoi ein cynigion ar waith, byddwn yn cyhoeddi ein hegwyddorion adolygedig ar gyfer cyfreithwyr cymwysedig fel bod unigolion yn deall  sut mae'r gofynion iaith Gymraeg a Saesneg yn gymwys. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein meini prawf ar gyfer dangos gwybodaeth ieithyddol, fel bod ymgeiswyr yn deall sut y gallent ddangos gwybodaeth ieithyddol os bydd angen. |
| Cyson | Mae ein cynigion yn sicrhau cysondeb rhwng ein egwyddorion a rheoliadau derbyn SQE. Mae ein hadolygiad hefyd yn ein galluogi i ddefnyddio dull cyson o dderbyn cyfreithwyr cymwysedig, er enghraifft, rhai sydd wedi eu hesemptio yn rhannol neu'n gyfan gwbl o SQE2. |
| Tryloyw | Fel uchod, bydd ein gofynion yn glir, cyson a byddant yn cael eu cyhoeddi. Byddwn yn ymgysylltu â phob awdurdodaeth a chyfreithiwr cymwysedig er mwyn egluro ein newidiadau arfaethedig. |
| Wedi ei dargedu | Mae ein cynigion yn ymateb wedi ei dargedu er mwyn sicrhau cysondeb â'n rheoliadau a diogelu'r cyhoedd. Byddwn ond yn targedu'r gofynion iaith Gymraeg neu Saesneg at yr elfennau hynny o wybodaeth ieithyddol nad yw cyfreithiwr cymwysedig wedi gallu eu dangos drwy ymgymryd ag elfennau perthnasol y SQE2 ac mewn perthynas â'r rhai y mae gennym amheuon difrifol a phendant amdanynt.<br><br>Mae ein ffocws arfaethedig ar gymwysterau a phrofiad cyfreithwyr cymwysedig sydd yn ceisio esemptiad o SQE2 yn hytrach na'u hawdurdodaeth yn golygu bod ein dull yn cael ei dargedu er mwyn sicrhau |

| | |
|---|---|
| | cymhwysedd tra'n cynyddu hyblygrwydd o ran cymhwyso. |

# Casgliad

30. Ar hyn o bryd nid ydym yn ystyried bod yna unrhyw risgiau sylweddol o ganlyniad i'n cynnig i ddiwygio ein hegwyddorion er mwyn egluro y bydd gofyniad iaith Gymraeg neu Saesneg ond yn gymwys i ymgeiswyr sydd wedi eu hesemptio yn rhannol neu yn gyfan gwbl o'r SQE2.

31. Yn yr un modd, nid ydym yn ystyried bod yna unrhyw risgiau sylweddol o ganlyniad i'n cynnig i ddiwygio ein hegwyddorion er mwyn cydnabod cymwysterau proffesiynol yn hytrach nag awdurdodaethau.

32. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod yr ymarferiad ymgynghori er mwyn caffael safbwyntiau ar yr effeithiau yr ydym wedi eu nodi a phan fo mwy o effeithiau y mae angen i ni eu hystyried.